# PN141 - HYSBYSIAD PREIFATRWYDD Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymo i amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn.

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth CBST:** | Oedolion a Chymunedau |
| **Maes gwaith:** | Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent |
| **Manylion Cyswllt** | gwentregionalpartnershipboard@torfaen.gov.uk |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Gwent |

**Rheolwr Data:**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**d/o Y Ganolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 6YB**

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r **Swyddog Diogelu Data** gan ddefnyddio'r manylion isod:

**01495 762200**
**dpa@torfaen.gov.uk**

Fel nodir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, mae gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i reoli a datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwaith cynllunio a phartneriaeth strategol. Mae BPRh Gwent yn gweithredu ar draws y 5 Awdurdod Lleol (Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy) i sicrhau gwasanaethau effeithiol a gofal a chefnogaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y ffordd orau. Mae gwefan y BPRh yn darparu rhan ar-lein i'r gymuned gael gwybodaeth am BPRh Gwent, gwybod y diweddaraf am ei waith, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a chysylltu gyda chwestiynau ac ymholiadau.

## 1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Mae'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei darparu i ni'n uniongyrchol gennych chi. Er mwyn ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau bydd angen eich gwybodaeth bersonol arnom ni a byddwn yn trosglwyddo hyn at yr awdurdod lleol a'r maes gwasanaeth perthnasol. Os ydych chi wedi cysylltu â ni i roi barn ar unrhyw ymgynghoriadau, byddwn yn nodi eich

sylwadau a'ch adborth ac efallai byddwn yn gofyn i chi ym mha ardal o Went yr ydych yn byw. Ni fyddwn serch hynny'n defnyddio unrhyw ran o'ch gwybodaeth bersonol yn ein hadroddiadau.

## 2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon:

• Ffurflenni electronig, ffurflenni ar-lein, a ffurflenni papur ar gais (gan gynnwys arolygon)
• Galwadau ffôn
• Galwadau fideo
• E-byst
• Y Cyfryngau Cymdeithasol
• Fideo-gynadleddau / gyfarfodydd (gan gynnwys thrawsgrifio os ydynt yn cael eu defnyddio at ddiben cymryd cofnodion)
• Cyfarfodydd / digwyddiadau wyneb yn wyneb

## 3) Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn casglu:

• Enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
• Dyddiad geni
• Unrhyw wybodaeth mewn ymholiadau/atebion a roddir gennych chi
• Unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn cyfarfodydd, digwyddiadau neu gynadleddau (rhithwir ac wyneb yn wyneb) sy'n brofiadau byw yn ymwneud â thai, cymorth a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## 4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR), y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(e) Rydyn ni ei hangen i gyflawni tasg gyhoeddus.

## 5) Categorïau Arbennig o ddata personol:

O dan Erthygl 9 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR)

(g) Rhesymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol (gyda sail cyfreithiol)

Ar adegau efallai y byddwn am gasglu data sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Yn yr achosion hyn, bydd pob categori arbennig o ddata yn ddienw. Cofiwch, oherwydd natur yr ymatebion, gallai eich hunaniaeth gael ei ddatgelu mewn ambell i achos.

## 6) Pwy sydd yn cael defnyddio'ch data?

Bydd eich data'n cael ei rannu'n fewnol yn unig gyda'r staff priodol lle mae'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad eu rolau.

Efallai y bydd eich data hefyd yn cael ei rannu'n allanol gyda sefydliadau at ddibenion nodi person(au) addas i ymateb i'ch cwestiynau neu'ch ymholiadau. Mae'r Sefydliadau yma'n Rheolwyr Data yn eu rhinwedd eu hunain a bydd y ffordd y maen nhw'n prosesu eich gwybodaeth yn eu Hysbysiadau Preifatrwydd eu hunain.

Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Darparwyr gofal a gomisiynir gan awdurdodau lleol Gwent.
- Sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal a gwirfoddol
- Llais Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Efallai bydd gwybodaeth ystadegol ddienw'n cael ei rhannu gyda Llywodraeth i benderfynu ar lwyddiant prosiect, ond ni fydd hyn yn datgelu manylion unigolyn.

Gellir rhannu data dienw hefyd yn allanol gyda sefydliadau, a hynny at ddibenion gwella gwasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol a gellir defnyddio cefnogaeth a themâu profiadau byw y gymuned mewn adroddiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd Cytundeb Rhannu Data ffurfiol ar waith.

Ar wahân i'r hyn a nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn trosglwyddo eich manylion i drydydd partïon oni bai bod gofynion cyfreithlon i wneud hynny.

## Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU?

Na

## 7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol ar waith i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu'n cael ei golli, ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu'n ddamweiniol. Cyfyngir ar fynediad i'r data hwn yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU.

Bydd data'n cael ei storio'n ddiogel mewn:

- Storfa electronig mewn gyriant rhwydwaith diogel

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

## 8) Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol a bydd yn dilyn safonau sefydliadol a safonau'r Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

## 9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?

Na

## Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Hygludedd data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)

- Gwybod canlyniadau eich bod yn methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent trwy unrhyw un o'r canlynol:

https://www.gwentrpb.wales/contact-us
gwentregionalpartnershipboard@torfaen.gov.uk

Y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Hanbury Road, Pont-y-pŵl, NP4 6YB, 01495 761691

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH, Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost at Wales@ico.org.uk.

## RHEOLAETH DOGFENNAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl:** | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** | | |
| **Perchennog y Ddogfen:** | **Uwch Berchennog Gwybodaeth Risg** (UBGR) | | |
| **Awdur y Ddogfen:** | **Erin Roche, Swyddog Polisi a Phrosiect, TPRh** | | |
| **Cyfeirnod:** | **PN141** | **Cyfnod Cadw:** | **Tan yr Adolygiad nesaf** |
| **Dosbarthiad y Ddogfen:** | Swyddogol | **Lleoliad** | SWOOP |
| **Fersiwn / Statws** | Byw | **Cymeradwywyd gan** | UBGR |
| **Dyddiad Cyhoeddiad Presennol** | Mawrth 2026 | **Dyddiad yr Adolygiad nesaf** | Mawrth 2027 |

## HANES ADOLYGU

| Dyddiad Cyhoeddi | Fersiwn / Statws | Rheswm dros Newid | Newidiwyd gan |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2022 | V1.0 Byw | Cydymffurfio â GDPR y DU | Erin Roche |
| Ionawr 2024 | V2.0 Byw | Dileu swyddog diogelu data, Newid gwybodaeth cyswllt, adolygiad | Erin Roche |
| Mawrth 2025 | V 2.1 Byw | Trawsgrifiad ychwanegol | Tom Vincent |
| Mawth 2026 | V2.2 Byw | Wedi'i ddiweddaru i gydymffurfio ag ymgynghoriad ymgysylltu’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth - Newidiwyd adrannau 2,3,5 a 6 | Erin Roche |